



Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru mis Mawrth 2026

Mae Canolbarth Cymru yn parhau i adeiladu momentwm — gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth yn cydweithio i gryfhau arloesedd, sgiliau a chyfleoedd buddsoddi i'n cymunedau a'n busnesau. O ymchwil ynni adnewyddadwy ac arloesi amaeth-fwyd i ddatblygu sgiliau a chymorth i fusnesau, mae cydweithio yn parhau i fod yn allweddol i ddatgloi potensial y rhanbarth.

Mae diweddariad y mis hwn yn tynnu sylw at gynnydd ar draws amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys ymweliadau â phrosiectau datgarboneiddio arloesol a gefnogir drwy raglen Ymchwil ac Arloesi Datgarboneiddio System Gyfan, gweithgarwch ymgysylltu newydd i lywio Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat ar gyfer Canolbarth Cymru, a chydweithio parhaus drwy ein Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol.

Mae nifer o'r digwyddiadau a amlygir yn y cylchlythyr hwn yn cael eu cynnal yr wythnos hon — felly peidiwch â cholli allan. Edrychwch drwy'r diweddariadau isod i weld beth sy'n digwydd a sut y gallwch gymryd rhan.

Diolch i chi am aros yn gysylltiedig ac am gefnogi twf ar draws Canolbarth Cymru.

[Tîm Tyfu Canolbarth Cymru](#)

Clawr: Taith o brosiectau WSRID, gweler y stori isod.

Cynnwys

- Ynni: Newyddion Ymchwil ac Arloesi Datgarboneiddio System Gyfan (WSRID)
- Gweithdai Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat
- Newyddion Amaeth-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg
- Gweithgarwch diweddar Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol: Llunio dyfodol sgiliau yng Nghanolbarth Cymru
- Newyddion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar draws y rhanbarth
- Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner

Arloesedd ar waith ledled Canolbarth Cymru

Ymwelon ni a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar â'r pedwar prosiect Ymchwil ac Arloesi Datgarboneiddio System Gyfan (WSRID) i adolygu datblygiadau a gweld yn uniongyrchol sut mae arloesedd yn helpu i gefnogi'r trawsnewid i Sero Net ar draws y rhanbarth.

Dechreuodd y diwrnod yn ArloesiAber, lle cyflwynodd timau prosiect *Challoch*, *Lafan a Water to Water* eu gwaith, gan archwilio dulliau newydd o ynni adnewyddadwy, amaethyddiaeth gynaliadwy a datgarboneiddio. Parhaodd yr ymweliad gyda thaith o amgylch fferm wynt Cefn Croes, sy'n cefnogi prosiect Challoch, cyn teithio i Lanidloes i glywed am y prosiect HARVEST dan arweiniad y *Centre for Energy Equality* ac ymweld â safleoedd lleol sy'n cymryd rhan.

Mae rhaglen WSRID yn helpu i osod Canolbarth Cymru ar flaen y gad ym maes ymchwil ac arloesi ym maes datgarboneiddio — gan gefnogi atebion ymarferol sy'n dod â budd i gymunedau gwledig, yn cryfhau'r economi ranbarthol ac yn cyfrannu at uchelgeisiau Sero Net Cymru.

Am ragor o wybodaeth am y prosiectau hyn, ewch i'n [gwefan](#).



Ynni o'r Fferm

Rydym yn falch o gefnogi'r digwyddiad hwn gan brosiect Lafan a Coleg Sir Gâr, sydd wedi derbyn cyllid wrthym drwy raglen Ymchwil ac Arloesi Systemau Cyfan mewn Datgarboneiddio (WSRID) Llywodraeth Cymru — rhaglen i brofi atebion carbon isel mewn lleoliadau gwledig go iawn.

 18 Mawrth 2026  Fferm Coleg Gelli Aur

Bydd y digwyddiad yn dod â ffermwyr, ymchwilwyr a rhanddeiliaid ynghyd i archwilio sut gall adnoddau ar y fferm gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a chyfleoedd economaidd newydd i ardaloedd gwledig.

Os oes gennych ddiddordeb yn nyfodol ynni gwledig, peidiwch â cholli'r cyfle hwn i fod yn rhan o'r sgwrs: <https://www.eventbrite.com/e/ynni-or-fferm-power-from-the-farm-tickets-1983538953405?aff=oddtcreator>




HARVEST: Archwilio masnachu ynni lleol ar gyfer Cymru wledig

John McHugh, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr y *Centre for Energy Equality*, sy'n ymddangos yn ein podlediad diweddaraf mewn cydweithrediad â Business News Wales. Mae John yn sôn am brosiect *HARVEST* (Trawsnewid System Ynni Rhithwir Gwledig ac Amaethyddol Holistaidd).

Mae'r prosiect yn archwilio sut y gallai ffermydd a chymunedau gwledig gynhyrchu, defnyddio a masnachu ynni'n lleol — gan helpu i gadw gwerth economaidd o fewn ardaloedd gwledig wrth gefnogi'r trawsnewid i Sero Net.

Mae HARVEST yn cael ei gefnogi drwy Tyfu Canolbarth Cymru trwy gronfa her Ymchwil ac Arloesi Datgarboneiddio Systemau Cyfan (WSRID) Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi atebion datgarboneiddio arloesol ar draws Canolbarth Cymru.

Darllenwch yr [erthygl lawn](#) yma neu dysgwch fwy am y rhaglen WSRID ehangach ar [ein gwefan](#).



Gweithdai Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat

I gefnogi datblygiad Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat ar gyfer Canolbarth Cymru, mae Tyfu Canolbarth Cymru — gyda chefnogaeth Savills — yn cynnal cyfres o weithdai sector ar-lein.

Mae'r sesiynau hyn yn rhan o'n gweithgarwch ymgysylltu ehangach i helpu llywio'r strategaeth. Er nad yw'r gweithdai'n gysylltiedig â phenderfyniadau cyllido sy'n ymwneud â

Phiblinell Buddsoddi Cyfalaf Tyfu Canolbarth Cymru, maent yn gyfle gwerthfawr i rannu mewnwelediadau am y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â denu buddsoddiad i Ganolbarth Cymru.

Sylwer: Mae cofrestru er mwyn mynegi diddordeb yn unig. Bydd cadarnhad a manylion ymuno yn dilyn ar gyfer y rhai a gaiff le.

Bydd cyfres o weithdai sector ar-lein yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 16 Mawrth 2026, gan gwmpasu:

🌱 Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Garddwriaeth

🍷 Twristiaeth, Lletygarwch, Bwyd a Diod

🏠 Adeiladu

💻 Digidol

🏭 Gweithgynhyrchu

⚡ Ynni

🔗 Cofrestrwch eich diddordeb: <https://bit.ly/GweithdaiTCC-GMWWorkshops>



Gweithdai Strategaeth Fuddsoddi'r Sector Preifat

Private Sector Investment Strategy Workshops

Help shape investment priorities for Mid Wales

Helpwch lunio blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer Canolbarth Cymru



Week commencing 16 March 2026 | Wythnos yn dechrau 16 Mawrth 2026

Ar-lein | Online

Canolbarth a Gogledd Cymru ar y llwyfan yn *BioSolutions for Tomorrow's World*

Yn nigwyddiad diweddar **BioSolutions for Tomorrow's World** yn Glasgow, archwiliwyd ystod o bynciau — o fio-debygion (biosimilars) mewn gweithgynhyrchu i arloesi ym maes bwyd a rôl biotechnoleg wrth adfer yr amgylchedd.

Rhannodd ein cydweithiwr o'r Sefydliad Rheoli Clwstwr Amaeth-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg yn ArloesiAber, Dr Rhian Hayward MBE, fewnwelediadau ar raglen Launchpad Innovate UK a'r momentwm cynyddol y tu ôl i arloesedd Amaeth-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru.

Drwy ein clystyrau, rydym yn falch o gefnogi cydweithio rhwng ymchwilwyr, busnesau ac arloeswyr i gyflymu syniadau a thechnolegau newydd ar draws y sector amaeth-fwyd.

Mae digwyddiadau fel hyn yn dod â diwydiant, y byd academiaidd a llunwyr polisïau o bob rhan o'r DU ynghyd i archwilio sut y gall arloesedd gefnogi system fwyd fwy gwydn a chynaliadwy.

Oes gennych ddiddordeb yn ein Clystyrau Amaeth-Dechnoleg a Bwyd-Dechnoleg? Dysgwch fwy [yma](https://www.tyfuacanlbarth.cymru/WSRID-CY).



Arloesedd amaeth-fwyd ar waith yng Nghymru

Cynhaliwyd Expo Arloesi Amaeth-Dechnoleg Bwyd Cymru cyntaf yn ddiweddar. Daeth â ffermwyr, cynhyrchwyr bwyd, ymchwilwyr ac arloeswyr ynghyd yn ArloesiAber i archwilio sut y gall technoleg a chydweithio lunio dyfodol y sector.

O gynhyrchu cynaliadwy i gysylltedd ar y fferm ac arloesi ym maes bwyd, dangosodd y digwyddiad ar 5 Mawrth gryfder ecosystem amaeth-fwyd Cymru a'r cyfleoedd sy'n dod o weithio gyda'n gilydd.

Mae digwyddiadau fel hyn yn helpu i sbarduno syniadau newydd, partneriaethau a phrosiectau ar draws amaethyddiaeth, bwyd, ymchwil a thechnoleg.


Oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o gydweithio yn y dyfodol? Dysgwch fwy am glystyrau arloesi amaeth-dechnoleg a bwyd-dechnoleg a sut i gymryd rhan:

<https://www.tyfuacanlbarth.cymru/WSRID-CY>

Methu dod eleni? Cadwch y dyddiad ar gyfer digwyddiad y flwyddyn nesaf, a gynhelir ar **4 Mawrth 2027**. Bydd diweddariadau ar gael yn gyntaf gan [Cywain](https://www.tyfuacanlbarth.cymru/), Mentera.



Gweithgarwch diweddar Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol: Llunio dyfodol sgiliau yng Nghanolbarth Cymru



1 - Cynhadledd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

Mae datblygu sgiliau a'r gweithlu yn parhau i fod yn ffocws allweddol i bartneriaid ar draws Canolbarth Cymru. Yn ddiweddar, mynychodd ein tîm Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru Gynhadledd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW) 2026 — *Prentisiaethau: Llunio Sgiliau ar gyfer Cyfnod Newydd*.

Daeth y gynhadledd â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a phartneriaid o bob rhan o Gymru ynghyd i drafod dyfodol prentisiaethau a datblygu'r gweithlu, gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol o bob rhan o Gymru hefyd yn cyflwyno un o'r gweithdai yn ystod y digwyddiad.

Mae sicrhau bod gan Ganolbarth Cymru lais cryf mewn trafodaethau cenedlaethol yn hanfodol i gefnogi dysgwyr lleol ac i helpu busnesau gael mynediad at y gweithlu medrus sydd ei angen arnynt.

Yn nes at adref, daeth y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn ddiweddar â chynrychiolwyr diwydiant ynghyd drwy ddau gyfarfod grŵp clwstwr — un ar gyfer y sector Adeiladu yn y Drenewydd ac un arall ar gyfer Gweithgynhyrchu a Pheirianeg yn y Trallwng.

Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ddiweddariadau allweddol ar draws prentisiaethau, cymwysterau a chymorth gyrfaedd, gan gynnwys cynnydd ar [Gyrfaedd mewn 360](#), mapio'r sector adeiladu, y cynnig ar gyfer Barc CymruTech, a'r Gronfa Twf Leol newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod y sector Gweithgynhyrchu a Pheirianeg gan Morland yn y Trallwng, enillwyr Gwobr Busnes a Ysgolion Gwobrau Busnes Powys 2025, gyda Rachel Jones a'i thîm yn rhoi taith ddiddorol o amgylch y cwmni ar ôl y cyfarfod.

Bu cyfraniadau gan Gyrfa Cymru hefyd yn helpu i amlygu pwysigrwydd cysylltu busnesau, dysgwyr a chyfleoedd hyfforddi ar draws y rhanbarth.



2 - Taith Morland

Newyddion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar draws y rhanbarth

Powys

Trwy Flwyddyn Trawsnewid 2025/26

Mae Blwyddyn Trosiannol 2025/26 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) bellach wedi cychwyn, gan helpu sicrhau bod cymorth hanfodol i drigolion, busnesau, a chymunedau Powys yn parhau'n ddi-dor tra bo fframwaith ariannu ar gyfer y dyfodol yn cael ei ddatblygu. Mae £9.1 miliwn wedi'i neilltuo i Bowys i gynnal ymchwiliad ar draws meysydd blaenoriaeth a osgoi bylchau mewn gwasanaethau hanfodol yn ystod y cyfnod trosiannol.

Mae'r Flwyddyn Drosiannol yn parhau i ariannu gweithgarwch o dan pedwar thema sefydledig (gyda phrosiectau enghreifftiol):

- **Cymunedau Iach, Diogel ac Cynhwysol**

Mae prosiect Gostwng Carbon Cyngor Sir Powys – Buddsoddi i Arbed yn darparu 40 o uwchraddio di-garbon ar draws 24 o adeiladau cyhoeddus—megis PV solar, storfa batri, goleuadau LED, a systemau gwresogi gwell—i leihau defnydd ynni, lleihau costau, a chefnogi llwybr y Cyngor tuag at Net Zero.

Mae Awyr Iach yn datblygu ac yn profi llwybr clir cyfeirio rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaeth iechyd a lles allanol yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi trwy weithdai, adnoddau addysgol syml, a chydweithrediad agos gyda thimau'r ysbyty a meddygon teulu.



Beth mae Awyr Iach yn ei gynnig a sut alla i gofrestru? - [Gwyllo'r ffilm 3 munud hon](#)

- **Cymorth i Fusnesau**

Yn cael ei ddarparu gan Antur Cymru, mae'r prosiect Gofnod Masnachu / Cymorth Busnes Lleol yn cynnig cymorth busnes wyneb yn wyneb ledled Powys trwy ganolfannau yn y Drenewydd a Phren, yn ogystal ag gweithdai ledled y sir, gan gynnig diagnoses, cyngor un-i-un, masnachu prawf, hyfforddiant ymarferol, arweiniad arbenigol, a chyfleoedd rhwydweithio ar gyfer busnesau cyn-dechrau, newydd, ac sydd eisoes wedi'u sefydlu.

- **Lleoedd Lwyfannus**

Mae Cronfa Digwyddiadau a Thwristiaeth, a gyflwynir gan Gyngor Sir Powys, yn cefnogi cymunedau bywiog a gwrthsefyll trwy fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o wyliau, gweithgareddau diwylliannol, a digwyddiadau lleol ledled Powys yn 2026, gan helpu i gryfhau hunaniaeth y gymuned, cynyddu balchder lleol, denu ymwelwyr, a symbylu'r economi ehangach drwy gymorth grant, cydlynu, a chymorth marchnata.

- **Sgiliau**


Mae'r prosiect Cymorth Ieuencid Ymyrraeth Gynnar – Cam 2 yn darparu cymorth cynnar targedol i bobl ifanc 11–16 oed sydd mewn perygl o ddod yn NEET trwy gynnal gweithgareddau grŵp, cymorth un-i-un a chyfranogiad cymunedol i adeiladu hyder, gwrthsefylliaeth a dewision cadarnhaol, gan weithio gyda ysgolion a sefydliadau lleol i ailgyfuno pobl ifanc a helpu 100 ohonynt i symud tuag at addysg neu hyfforddiant dros Blwyddyn Trosglwyddo.

Mae prosiectau a gynorthwyir yn ystod y Flwyddyn Trawsnewid eisoes yn cyflwyno canlyniadau—o dwf busnes a chreu swyddi i ddatblygu cymunedau a gwella amgylchedd. Mae gweithgaredd a ariannwyd o dan y Flwyddyn Trawsnewid yn chwarae rôl ganolog wrth gynnal dilyniant, ymateb i anghenion lleol, a sicrhau bod cymunedau a busnesau ar draws Powys yn parhau i elwa o fuddsoddiadau targedig tan i'r cam ariannu nesaf ddechrau.

Effaith Cyllid SPF Powys

Gallwch archwilio ein casgliad o fideos prosiectau sy'n dangos yr effaith mae mentrau a gyllidir gan SPF wedi'u cael ledled Powys. Mae'r rhestr chwarae gynyddol hon yn amlygu straeon llwyddiant, manteision cymunedol, a'r gwaith arloesol sy'n digwydd ledled y sir— gan gynnig cipolwg ar yr hyn y mae buddsoddiad parhaus yn helpu i'w gyflawni.

 Gwyllo [yma](#)



Ceredigion

‘Ein Cegin’ yn cryfhau cysylltiadau cymunedol drwy fwyd, creadigrwydd a thwf cynaliadwy

Wrth i'r argyfwng costau byw barhau i effeithio ar deuluoedd ledled y DU, mae bron un o bob pedwar rhiant sy'n gweithio bellach yn dibynnu ar fanciau bwyd. Mewn ymateb i'r angen cynyddol hwn, mae Ein Cegin yn Aberteifi wedi datblygu model arloesol dan arweiniad y gymuned sy'n cael ei gydnabod fel patrwm ar gyfer trefi eraill yng Ngheredigion.

Mae Ein Cegin yn cefnogi'r Farchnad Ffermwyr wrth darparu rhaglen fywiog o brosiectau celf gymunedol a gweithdai coginio mewn partneriaeth â sefydliadau ac artistiaid lleol.

Mae'r fenter yn cael ei hariannu'n rhannol drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFFGDU) a'i chyflawni gan dîm Cynnal y Cardi ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023–2028.

Darllenwch yr erthygl llawn [yma](#).



Cysylltu arloesedd a busnes yng Nghanolbarth Cymru

Bydd Tyfu Canolbarth Cymru yn mynychu'r **Cyfnewidfa Busnes ac Arloesi Canolbarth Cymru** sydd i ddod yng Nghanolfan y Celfyddydau Prifysgol Aberystwyth ac ArloesiAber ochr yn ochr â phartneriaid a busnesau o bob rhan o'r rhanbarth.

Bydd cynrychiolwyr o'n timau Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol, Bargen Twf ac Ynni yno i gysylltu â busnesau, rhannu mewnwelediadau ac amlygu'r cymorth sydd ar gael i helpu sefydliadau i arloesi, tyfu ac addasu mewn amgylchedd busnes sy'n newid.

Bydd y digwyddiad yn dod â busnesau, sefydliadau cymorth ac arbenigwyr sector ynghyd i archwilio heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth, gan gynnwys technoleg, cyllid, seiberddiogelwch a'r trawsnewid i sero net.

Dysgwch fwy am y digwyddiad: <https://www.eventbrite.co.uk/e/mid-wales-business-innovation-exchange-tickets-1983361728320?aff=oddttdtcreator>



Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner

Parc CymruTech: y camau nesaf ar gyfer canolfan technoleg a gweithgynhyrchu'r Drenwydd

Yn dilyn cyhoeddiad y mis diwethaf bod Cyngor Sir Powys yn edrych i sicrhau tir ar gyfer datblygiad arfaethedig **Parc CymruTech** yn y Drenwydd, mae'r prosiect yn parhau i symud ymlaen.

Bydd ymgynghoriad cyn-cynllunio ar yr uchelgais i ddatblygu parc technoleg newydd a chanolfan gweithgynhyrchu uwch ar gyfer Canolbarth Cymru — ar safle wrth ymyl Coleg y Drenwydd — yn agor yn fuan.

Yn y cyfamser, mae'r Aelod Cabinet dros Bowys Fwy Llewyrchus, Cyngor Sir Powys, y Cyngorydd Glyn Preston, wedi bod ar y safle i edrych ar y 4.75 hectar wrth ymyl Coleg y Drenwydd.



Gwylwch beth oedd ganddo i'w ddweud: https://youtube.com/shorts/gcR_Y58gteg

Y nod yw i'r datblygiad gefnogi tua 400 o swyddi a chynhyrchu hwb economaidd amcangyfrifedig o £100 miliwn i'r rhanbarth.

Gall unrhyw un sydd â chwestiynau am y cynlluniau gysylltu â thîm datblygu economaidd y cyngor yn: economicdevelopment@powys.gov.uk

Digwyddiad ymgysylltu cerdded, olwyno a beicio yn y Drenwydd

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb yn Hafan Yr Afon, Y Drenwydd (20 Mawrth 2026, 11am–6pm) i gasglu barn ar wella cerdded, olwyno a beicio yn y dref.

Bydd yr adborth yn helpu i lywio gwelliannau sy'n cyd-fynd â Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a ddatblygwyd gan Tyfu Canolbarth Cymru drwy Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru (Mwy o newyddion ar y Cynllun yn ein cylchlythyr mis Ebrill).

Dysgwch fwy a chymerwch ran: <https://haveyoursay.tfw.wales/newtown-walking-cycling-and-wheeling>

DWEUD EICH DWEUD HAVE YOUR SAY

Rydym am glywed eich barn ar gerdded, olwynio a beicio yn y Drefnewydd. Dewch i'n gweld yn:

Marchnad Y Drefnewydd
11am - 3pm ddydd Mawrth, 3 Mawrth

Hafan Yr Afon
11am - 6pm dydd Gwener, 20 Mawrth

We want to hear your thoughts on walking, wheeling and cycling in Newtown. Please visit us at:

Newtown Market
11am - 3pm on Tuesday, 3 March

Hafan Yr Afon
11am - 6pm on Friday, 20 March




Dweud eich dweud ar ddyfodol Pont Rhiwarthen, Capel Bangor

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwahodd trigolion i rannu eu barn ar ddyfodol Pont Rhiwarthen yng Nghapel Bangor fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus sy'n agored tan **22 Mawrth 2026**.

Bydd yr adborth yn helpu i lywio gwelliannau sy'n cyd-fynd â Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a ddatblygwyd gan Tyfu Canolbarth Cymru drwy Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru.

Dysgwch fwy a rhannwch eich barn cyn i'r ymgynghoriad gau:

<https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ymgyngoriadau/pont-rhiwarthen-capel-bangor/>



Canolfan Fwyd Cymru yn dathlu 30 mlynedd o gefnogi busnesau bwyd a diod Cymru

Am dri degawd, mae'r Ganolfan wedi chwarae rhan hanfodol wrth ysgogi arloesedd, entrepreneuriaeth a thwf — yma yng Nghanolbarth Cymru ac ar draws y genedl.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Ganolfan Arloesi Gweithgynhyrchu Bwyd arfaethedig yn un o'r prosiectau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru — gan adeiladu ar y sylfaen gref hon a chryfhau ymhellach ecosystem bwyd a diod y rhanbarth.

Fel rhan o ddathliadau'r pen-blwydd, bydd

Fel rhan o'r dathliadau pen-blwydd, bydd Canolfan Bwyd Cymru yn cynnal Cymhorthfa Cychwyn Busnes ar 18 Mawrth 2026, a gynlluniwyd i ysbrydoli a thywys entrepreneuriaid bwyd a diod newydd. Os ydych chi'n lansio busnes, yn tyfu busnes sy'n cynhyrchu yn y cartref ar hyn o bryd neu'n datblygu cynnyrch newydd, bydd y digwyddiad hwn yn cynnig dirnadaeth ymarferol a chynghor arbenigol er mwyn eich helpu i gymryd y cam nesaf. I ddiogelu eich lle, anfonwch e-bost at gen@foodcentrewales.org.uk neu ffoniwch 01559 362230.

Rhagor o wybodaeth [yma](#).



Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan [Cyngor Sir Powys](#).
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein [gwefan](#).

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

<https://www.youtube.com/@TCC-GMW>

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein

hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

